

## EVANS, DANIEL ('Daniel Ddu o Geredigion'; 1792 - 1846), offeiriad a bardd

**Enw:** Daniel Evans

**Ffugenw:** Daniel Ddu O Geredigion

**Dyddiad geni:** 1792

**Dyddiad marw:** 1846

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** offeiriad a bardd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Barddoniaeth

**Awdur:** David Gwenallt Jones

Ganwyd 5 Mawrth 1792 ym Maesmynach, fferm ym mhlwyf Llanfihangel Ystrad, Sir Aberteifi. Bu yn ysgol ramadeg Llanbedr pont Steffan, tan y **Parch. Eliezer Williams**; aeth i Goleg Iesu, Rhydychen; cafodd ei B.A. yn 1814, ei M.A. yn 1817, a'i B.D. yn 1824. Yn 1817 gwnaed ef yn gymrawd o'r coleg. Bu am ryw gyfnod, ar ôl gadael y coleg, yn gaplan yn y Royal Military Asylum, Northampton. Gadawodd y swydd hon oherwydd gwendid iechyd, ac aeth adref at ei rieni, ac ni chymerodd swydd o hyn tan ddiwedd ei fywyd. Cyhoeddwyd yn 1810 *Awdlau: gan ... Daniel Evans, bardd i Anrhydeddus Gymdeithas Y Gwyneddigion, Llundain* (Rhif 9 yn ' Cyhoeddiadau Cymdeithas y Gwyneddigion'); *Gwlad fy Ngenedigaeth ac Attebiad 'Ioan Tegid,' 1819?* (cerdd yn ceisio perswadio 'Tegid' i beidio â gadael Cymru am Ddwyrain India); *Awdl Marwnad Eliezer Williams, 1820; Englynion er cofiant Ifor Hael, Arglwydd Maesaleg, 1822; Golwg ar Gyflwr yr Iddewon, Cerdd ...*, 1826; *Ar ddylanwadau yr Ysbryd Glan: ymadrodd ar y pwnc ... wedi ei gyfieithu a'i dalfyrro gan ... Daniel Evans, 1826; Palesteina: neu, Hanes yr Iddewon a Gwlad Canaan, 1841; Galar-Cerdd ar farwolaeth William Bruce Knight, Deon Llandaf, 1845; ' Cerdd Arwraidd ar y Gauaf,' a enillodd ariandlws a gwobr y **Parch. Thomas Beynon**, llywydd Cymdeithas Cymreigyddion Caerfyrddin, yn y llyfryn, *Cerddi Arwraidd, ar yr Hydref a'r Gauaf; hefyd Awdlau ar y Daran, 1792-1846*. Casglodd ' Daniel Ddu ' ei waith yn *Gwinllan y Bardd*, 1831, ail arg. 1872, 3ydd arg. 1907. Ceir yn y llyfr hwn awdlau, cywyddau, englynion, cerddi rhydd, emynau, a rhai darnau Saesneg a Lladin.*

Bardd yr eisteddfodau a'r cymdeithasau oedd Daniel Ddu. Yn eisteddfod daleithiol Dyfed, 1823, enillodd y wobr ar awdl, ' Awdl ar Sefydliad Coleg Dewi Sant,' a'r ariandlws ar ' Awdl ar Fuddugoliaethau diweddar y Groegiaid ar y Tyrçiaid.' Perthynai i dri chylch o feirdd: cylch ' **Dafydd Ddu Eryri**,' cylch ' **Gwallter Mechain**,' a chylch yr **archddiacon Thomas Beynon**. Cymdeithasai hefyd â **David Davis**, Castell Hywel, ac â beirdd gwlad Sir Aberteifi ac yr oedd yn nhraddodiad **Edward Richard** a ' **Ieuan Brydydd Hir**.'

Bu farw drwy ei law ei hun, 28 Mawrth 1846, a chladdwyd ef ym mynwent Pencarreg.

### Awdur

**David Gwenallt Jones**, (1899 - 1968)

### Ffynonellau

'Rhagymadrodd' 3ydd arg. *Gwinllan y bardd sef prydyddwaith ar amrywiol destunau a gwahanol fesurau* (1907)

*Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol*, v. 1926, 48

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Daniel Evans**

### Gweithiau

William Thomas, *Yr awen lawen; sef, Casgliad o ganiadau dewisol*(Caerfyrddin 1851), tt.28-30, 33-34

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 281758137

Wikidata: Q5217090

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION

